WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyfraniad Ariannol i 'Gylchdaith Cymru' – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2016

Cyfeirnod y ddogfen: 643A2016

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru ar swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Hughes ac Emma Woodcock, dan gyfarwyddyd Mike Usher.

# Cynnwys

Mae ein hadolygiad yn archwilio'r trefniadau llywodraethu a'r cymorth cyllid sy'n gysylltiedig â chydweithrediad rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a grŵp codi arian annibynnol o'r enw Cerddwn Ymlaen. Cwblhaodd y grŵp her 'Cylchdaith Cymru' yn 2015 i gynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Trawsblannu Dynol 2013. Cafodd yr her hefyd gymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru a gan Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro.

Bu her Cylchdaith Cymru, yn ôl bob sôn, yn fenter lwyddiannus a llwyddodd i gyflawni ei nod allweddol, sef cynyddu proffil y ddeddf newydd ar roi organau. Er hynny, codwyd pryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu a ddefnyddiwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o safbwynt y cydweithrediad.

Mae ein hadolygiad, ochr yn ochr ag adolygiad y Bwrdd Iechyd ei hun o'r prosiect ar ôl iddo ddod i ben, yn ailddatgan llawer o'r heriau pwysig y mae cyrff y sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth gyflawni prosiectau a gwasanaethau'n gydweithredol gyda'r sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae'r Bwrdd Iechyd a Cerddwn Ymlaen yn cymryd camau i wella eu trefniadau llywodraethu yng ngoleuni'r profiad a gafwyd wrth gyflawni her Cylchdaith Cymru.


Adroddiad cryno

Beth sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn 5

Canfyddiadau allweddol 7

Mae 'Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth' yn defnyddio rhoddion elusennol gan y cyhoedd i wella lles cleifion a hwyluso hyfforddiant a datblygiad staff 8

Nod her 'Cylchdaith Cymru' oedd cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Trawsblannu Dynol 2013 a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015 10

Derbyniodd her Cylchdaith Cymru gyfanswm o £85,000 o gyllid oddi wrth dri chorff cyhoeddus yng Nghymru 11

Cwblhawyd her Cylchdaith Cymru yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2015, er bod rhyw gymaint o waith codi arian wedi parhau wedi hynny er mwyn talu am gyfanswm y gost o gynnal y digwyddiad, sef £154,054 15

Fe wnaeth y gwerthusiad a wnaeth swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ôl cwblhau her Cylchdaith Cymru amlygu rhai diffygion yn y cyllid a'r cyfrifon 17

Mae her Cylchdaith Cymru yn ailddatgan llawer o'r heriau pwysig y mae cyrff sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth gyflenwi gwasanaethau a phrosiectau'n gydweithredol gyda'r sector preifat a'r sector gwirfoddol 18

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen wedi dysgu nifer o wersi pwysig oddi wrth her Cylchdaith Cymru a gwnaed newidiadau pwysig yn eu trefniadau llywodraethu 22

Atodiadau

Atodiad 1 – Ein cwmpas a'n dulliau archwilio 23

Atodiad 2 – Arianwyr, Cerddwn Ymlaen a Her 'Cylchdaith Cymru' 24

Atodiad 3 – Cyfrifon cyfunol Cronfa Elen a Cerddwn Ymlaen 25

Atodiad 4 – Gwersi y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen wedi'u dysgu 27

# Adroddiad cryno

## Beth sydd dan sylw yn yr adolygiad hwn

1 Ymgyrch elusennol yw Cerddwn Ymlaen lle mae grŵp o unigolion o'r un feddwl wedi dod ynghyd i godi arian ar gyfer materion sy'n agos at eu calonnau. Rhwng 2012 a 2014, trefnodd Cerddwn Ymlaen nifer o deithiau cerdded a wnaeth godi dros £400,000 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

2 Un o aelodau craidd y grŵp, Rhys Meirion, yw sefydlydd Cronfa Elen. Nod y gronfa ydy helpu pobl yng Nghymru sydd angen organau a theuluoedd galarus rhoddwyr organau. Daeth Cronfa Elen yn rhan o Elusen Awyr Las  Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd), ym mis Ebrill 2014.

3 Mae Awyr Las yn rhoi cefnogaeth i gleifion a'u teuluoedd drwy wella gwasanaethau gofal iechyd yn yr ardal y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei gwasanaethu. Mae'n cefnogi amrediad eang o weithgareddau cysylltiedig ag iechyd drwy ariannu:

- offer a chyfleusterau mewn ysbytai ac yn y gymuned;
- gwelliannau i amgylcheddau ysbytai;
- ymchwil a hyfforddiant;
- gweithgareddau celf mewn iechyd; a
- phrosiectau arbennig eraill.

4 Ceir cyfanswm o 290 o gronfeydd dan ymbarél Awyr Las a'i weledigaeth gyffredinol yw:

'i bawb yng Ngogledd Cymru dderbyn gofal iechyd o'r radd flaenaf. Gyda ni, gall cefnogwyr a chymwynaswyr oleuo dyddiau cleifion mewn ysbytai a chymunedau ledled Gogledd Cymru. Byddwn yn gwneud hyn hyd nes byddwn yn gallu sicrhau bod pawb yn y rhanbarth yn derbyn y gofal a'r driniaeth gorau posibl.'

5 Yn 2014 penderfynodd aelodau Cerddwn Ymlaen gynyddu ymwybyddiaeth o roi organau ac yn benodol hyrwyddo Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 a fyddai'n dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015 drwy drefnu her 'Cylchdaith Cymru'. Fel rhan o her 'Cylchdaith Cymru' bu sêr o Gymru yn cymryd rhan mewn siwrnai ar draws Cymru gan annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau. Fe'i cynhaliwyd rhwng 4 a 11 Gorffennaf 2015 ac roedd iddi bedair elfen:

- taith y sêr o amgylch Cymru;
- arddangosfa addysgiadol symudol;
- cyflwyniad dramatig; a
- gweithgareddau cymunedol.

6 Amcangyfrifwyd bod y gost o gwblhau Cylchdaith Cymru yn oddeutu £150,000. Cyfrannodd y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru, a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro gyfanswm o £85,000. Yn seiliedig ar lwyddiant digwyddiadau cynharach, disgwyliwyd y byddai'r rhoddion a'r cyfraniadau o ffynonellau eraill yn talu am weddill costau Cylchdaith Cymru. Disgwyliwyd y byddai'r digwyddiad yn cynhyrchu

cyfraniadau ychwanegol i Gronfa Elen y gellid eu defnyddio'n ddiweddarach i roi cefnogaeth uniongyrchol i gleifion a'u perthnasau.

7 I bob pwrpas cwblhawyd Cylchdaith Cymru yn llwyddiannus ac yn ôl y bwriad. I gyd-fynd â'r adroddiad ffurfiol ar ganlyniadau ceir amrywiaeth o sylw ar y cyfryngau cymdeithasol i gwblhau Cylchdaith Cymru yn llwyddiannus, gan gynnwys gwefan at y pwrpas, tudalen Facebook ac amrywiol fideos YouTube. Fodd bynnag, yn fuan ar ôl ei chwblhau, mynegodd y cyfranogwyr bryderon am drefniadau llywodraethu'r prosiect. Dangosodd y cyfryngau hefyd ddiddordeb yn rhediad y prosiect, yn benodol mewn achos posibl o wrthdaro buddiannau.

8 Bu i Uwch Staff Cyllid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynnal adolygiad rhagarweiniol i'w gydweithrediad gyda Cerddwn Ymlaen. Amlygodd yr adolygiad nifer o bryderon ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r prosiect o safbwynt y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys tryloywder ynglŷn â defnyddio rhoddion cyhoeddus a rheolaeth ariannol dros brosiect a oedd yn cael ei gyflwyno gan grŵp annibynnol o wirfoddolwyr. Er i'r adolygiad hwn esgor ar wersi gwerthfawr, fe'i cyfyngwyd i archwiliad o drefniadau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd. Nid oedd yn gallu ystyried gweithredoedd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a oedd hefyd wedi darparu cyllid i Gylchdaith Cymru. O ystyried y cyfyngiadau hyn, cysylltodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y Bwrdd Iechyd â Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â'r posibilrwydd o gwblhau adolygiad o'r prosiect cyfan.

9 Mae cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus a phrosiectau sector cyhoeddus drwy bartneriaethau, a threfniadau ar y cyd â'r sector preifat a'r sector gwirfoddol yn cael ei gydnabod yn eang fel maes sy'n tyfu. Mae effeithiolrwydd y trefniadau cydweithio a rhannu gwybodaeth rhwng arianwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn faes sy'n rhoi cyfle gwych ond sydd hefyd yn peri pryder archwilio parhaus. Bu ein Cyfnewidfa Arfer Da yn ddiweddar yn trafod sut mae angen i wasanaethau cyhoeddus weithio'n well gyda'i gilydd er mwyn galluogi, cefnogi a gwella lles dinasyddion yng Nghymru.

10 Mae gwaith cynharach yr Archwilydd Cyffredinol mewn cyrff sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng corff hyd braich wedi canfod themâu cyffredin wrth wraidd prosiectau sydd wedi methu â gwireddu eu gwerth yn llawn i ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys:

- dim digon o ystyriaeth i'r trefniadau sydd eu hangen ar gyfer goruchwylio a'r cydbwysedd priodol rhwng annibyniaeth ac ymyrraeth;
- diffyg eglurder ynglŷn â sut dylai'r trefniadau llywodraethu weithredu'n ymarferol, gan gyfrannu at lai o dryloywder a llai o atebolrwydd cyhoeddus; a
- diffyg dealltwriaeth gyfrannol a chyson ac ymrwymiad i safonau moeseg ac ymddygiad sydd i'w dilyn gan bawb sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

11 Arweiniodd yr holl ffactorau hyn i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad archwilio allanol o Gylchdaith Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn darparu cyfrif ffeithiol o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â'r gefnogaeth a ddarparwyd i

‘Gylchdaith Cymru’ gan gyflwyno’r rhain yng nghyd-destun ehangach ymagwedd y Bwrdd Iechyd o safbwynt cefnogi sefydliadau elusennol. Bydd y canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn werthfawr i gyrff cyhoeddus eraill sy’n gweithio drwy drefniant cydweithredol gyda’r sector preifat a’r sector gwirfoddol.

12 Mae Atodiad 1 yn manylu ar ein cwmpas a’n dulliau archwilio.

13 Mae Atodiad 2 yn manylu ar y cysylltiadau rhwng arianwyr Cerddwn Ymlaen a her ‘Cylchdaith Cymru’.

# Canfyddiadau allweddol

14 Mae gan bob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd ‘Gronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth’ sy’n cael eu defnyddio i gefnogi dibenion elusennol. Enw ‘Cronfa a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth’ y Bwrdd Iechyd ydy Awyr Las (paragraffau 20 i 26).

15 Ym mis Rhagfyr 2015, daeth Deddf Trawsblannu Dynol 2013 i rym. Dyfeisiodd Cerddwn Ymlaen her ‘Cylchdaith Cymru’ i gynyddu ymwybyddiaeth o’r Ddeddf, ac wrth wneud hynny fe wnaethant sicrhau £85,000 o gyllid oddi wrth dri chorff cyhoeddus (paragraffau 27 i 54).

16 Cwblhawyd yr her yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2015, er bod rhyw gymaint o waith codi arian wedi parhau wedi hynny er mwyn talu am gyfanswm y gost o gynnal y digwyddiad (paragraffau 55 i 58).

17 Fe wnaeth y gwerthusiad a wnaeth Betsi Cadwaladr ar ôl cwblhau’r her amlygu gwendidau yng nghyllid a chyfrifon Cylchdaith Cymru (paragraffau 59 i 67).

18 Mae her Cylchdaith Cymru yn ailddatgan llawer o’r heriau pwysig y mae cyrff sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth gyflenwi gwasanaethau a phrosiectau’n gydweithredol gyda’r sector preifat a’r sector gwirfoddol. Mae’r rhain yn cynnwys:

- prosesau goruchwylio a monitro aneffeithiol;
- diffyg tryloywder; ac
- achosion o wrthdaro buddiannau ddim yn cael eu trafod yn effeithiol (paragraffau 68 i 87).

19 Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen wedi dysgu nifer o wersi pwysig oddi wrth her Cylchdaith Cymru a gwnaed newidiadau pwysig yn eu trefniadau llywodraethu (paragraffau 88 i 89).

# Mae ‘Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth’ yn defnyddio rhoddion elusennol gan y cyhoedd i wella lles cleifion a hwyluso hyfforddiant a datblygiad staff

20 Mae’r saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, yn ogystal ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre[1] a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, yn cynnal ‘Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth’ sy’n helpu i gefnogi amrywiaeth o ddibenion elusennol, gan gynnwys:


- prynu offer meddygol;
- darparu amwynderau a gweithgareddau lles i gleifion; a
- darparu ar gyfer addysg a lles y staff.

21 Mae pob bwrdd iechyd unigol yn cydgrynhoi ei amrywiol ‘Gronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth’ at ddibenion cyfrifo, o fewn ei adain elusennol dan bwerau a gaiff yn datgan yn adran 12 o Ddeddf Elusennau 2011. Mae’r Comisiwn Elusennau yn rheoleiddio elusennau’r Byrddau a rhaid iddynt oll gyflwyno’u cyfrifon yn unol â’r Datganiad Elusen o’r Ymarfer a Gydnabyddir.

22 Yng Nghymru, roedd cyfanswm incwm y ‘Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth’ ar gyfer 2015-16 yn £14 miliwn gyda’r gwariant yn £11 miliwn fel y gwelir yn Arddangosyn 1.

[1] Yn gweinyddu Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru drwy gronfa ymbarél.

Arddangosyn 1: Cyfanswm incwm a gwariant GIG o safbwynt Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth 2015-16




Ffynhonnell yr Arddangosyn: LRF-TR9 2015-16 a gyflwynwyd i Swyddfa Archwilio Cymru ym mhecyn archwilio'r Bwrdd Iechyd.

23 Roedd gwerth asedau'r Cronfeydd a Ddelir ar gyfer Ymddiriedolaeth, heb gynnwys unrhyw ddyledion yn £28,989,000[2].

24 Mae'r Ymddiriedolwyr enwebedig i'r Elusennau fel arfer yn aelodau o Fwrdd pob Bwrdd Iechyd gyda rôl gwarcheidwad yn cael ei chyflawni gan Bwyllgor Cronfeydd Elusennol isradd (y Pwyllgor). Caiff aelodau'r Pwyllgor eu henwebu gan y Bwrdd ac ymysg pethau eraill mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:

- sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r Bwrdd Iechyd o safbwynt buddsoddi cronfeydd elusennol yn cael eu dilyn;
- gwneud penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau cadarn ar gyfer y cronfeydd elusennol, gan reoli risg unrhyw golled yn y gwerth cyfalaf ochr yn ochr â chynhyrchu elw sy'n gydnaws â buddsoddiadau doeth yn yr hirdymor;

[2] Nid oes dim o'r ffigurau a ddyfynnir ar gyfer 2015-16 wedi'u harchwilio.

- goruchwylio a monitro'r swyddogaethau a gyflawna'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid fel y'u diffinnir mewn Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog;
- monitro ac adolygu cynllun dirprwyo'r BILl o safbwynt gwario Cronfeydd Elusennol;
- gosod y terfynau dirprwyedig cymeradwy o safbwynt gwario Cronfeydd Elusennol ac adlewyrchu'r rhain yn y Gweithdrefnau Ariannol;
- sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a dymuniadau'r rhoddwr. Sicrhau bod cyllid o'r fath yn rhoi gwerth ychwanegol a budd i gleifion a staff, a bod yr holl wariant yn rhesymol, yn glinigol ac yn briodol foesegol;
- sefydlu a chymeradwyo Cylch Gorchwyl a Chynllun Dirprwyo ar gyfer Grŵp Cynghori ar Gronfeydd Elusennol i adolygu ceisiadau am gyllid penodol. Derbyn adroddiadau gan Gadeirydd y Grŵp Cynghori ym mhob cyfarfod Pwyllgor ar gyfer craffu a chadarnhau.

25 Mae Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnwys saith aelod; pedwar Aelod Annibynnol gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, ynghyd â thri Aelod ymysg y Cyfarwyddwyr Gweithredol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter, ac fel arall os tybia Cadeirydd y Pwyllgor fod hynny'n angenrheidiol, yn gydnaws â chynllun blynyddol y Bwrdd. Er mwyn i'r Pwyllgor gael cworwm, rhaid i leiaf dri aelod fod yn bresennol, a dylai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fod yn un o'r rheini ynghyd ag un Cyfarwyddwr Gweithredol.

26 Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yw'r gwarcheidwad ar gyfer Elusen Awyr Las. Yn ystod 2015-16 roedd cyfanswm incwm Awyr Las yn £3,033,000 gyda £2,980,000 yn dod oddi wrth roddion a chodi arian. Cafodd cyfanswm o £4,355,000 ei wario, yn bennaf ar ffurf grantiau i gefnogi ystod eang o weithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar gleifion, a thalwyd am y gwahaniaeth o falansau. Mae incwm a gwariant 'Cylchdaith Cymru' yn cyfrif am 2.2% a 1.4% yn y drefn honno.

## Nod her 'Cylchdaith Cymru' oedd cynyddu ymwybyddiaeth o Ddeddf Trawsblannu Dynol 2013 a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015

27 Roedd un o sefydlwyr Cerddwn Ymlaen wedi cael profiad trasig personol yn 2012, gan wneud i'r sawl sylweddoli'r anawsterau y mae teuluoedd yn eu hwynebu pan ofynnir iddynt roi organau'r ymadawedig i'w trawsblannu. Arweiniodd hyn at ddiddordeb yn y maes hwn ac awydd i wneud gwahaniaeth yn bennaf drwy godi arian. Rhwng 2012 a 2014, cwblhaodd Cerddwn Ymlaen nifer o deithiau cerdded gan godi dros £400,000 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru.

28 Sefydlodd y teulu Gronfa Elen (fel elusen dan ymbarél Awyr Las) gyda'r nod o gefnogi pobl sydd angen organau yng Nghymru a theuluoedd galarus rhoddwyr organau. Yn fuan wedyn, drafftiodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth newydd, Deddf Trawsblannu Dynol Cymru 2013, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015. Pwrpas

y Ddeddf yw cynyddu faint o organau a meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu drwy gyflwyno system 'feddal o optio allan' ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru.

29 Bu aelodau Cerddwn Ymlaen yn gweithio'n agos â Nyrsys Arbenigol ar gyfer Rhoi Organau ac Arweinyddion Clinigol ym maes Rhoi Organau yn ogystal â gyda staff cymorth y GIG a staff gofal iechyd eraill i weld sut gallent gyfrannu at fywydau'r rheini y mae rhoi organau yn effeithio arnynt mewn rhyw ffordd. Felly, sefydlwyd prosiect 'Cylchdaith Cymru' yn ystod 2104 gan Cerddwn Ymlaen gyda'r nodau canlynol:

- creu prosiect cenedlaethol niwtral ac annibynnol gyda chefnogaeth a chydweithrediad cynrychiolwyr y GIG sy'n gweithio ym maes rhoi organau;
- helpu i sicrhau bod cyflwyno system o ganiatâd tybiedig i roi organau a meinweoedd yng Nghymru yn llwyddiant;
- defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes i lunio offer addysgol newydd, adeiladu ar y rhwydweithiau rhanddeiliaid sy'n bodoli eisoes a chynnwys gwirfoddolwyr lle bynnag y bo'n bosibl i greu digwyddiad cost-effeithiol ac uchel ei broffil.

30 I gyd-fynd â'r nodau allweddol hyn yr oedd yr amcanion eang canlynol:


- ysgogi 'trafodaeth genedlaethol' er mwyn addysgu pobl ledled Cymru ar yr angen i rannu dymuniadau personol am roi organau gyda'ch perthynas agosaf; a
- darparu i bobl ledled Cymru, yn enwedig cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd, y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddeall y ddeddfwriaeth.

31 Er bod Cerddwn Ymlaen ac Awyr Las yn ystyried mai rôl codi arian oedd gan Gylchdaith Cymru, eu prif ffocws oedd cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newidiadau a gyflwynwyd gan y ddeddf newydd a pha mor bwysig oedd i deuluoedd gael sgyrsiau am roi organau ac am ddymuniadau'r teulu. I'r perwyl hwn, roedd yn wahanol iawn i'r digwyddiadau codi arian blaenorol a drefnwyd gan Cerddwn Ymlaen.

## Derbyniodd her Cylchdaith Cymru gyfanswm o £85,000 o gyllid oddi wrth dri chorff cyhoeddus yng Nghymru

32 Fe wnaeth tri chorff cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro gyfrannu at her 'Cylchdaith Cymru', gweler Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: £85,000 oedd y cyfanswm a roddwyd i 'Gylchdaith Cymru' oddi wrth gyrff cyhoeddus




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

33 Mae'r adran nesaf yn edrych ar y broses gymeradwyo ar gyfer pob un o'r cyrff.

## Cafodd Cerddwn Ymlaen gyfanswm o £20,000 o gyllid at her 'Cylchdaith Cymru' oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

34 Mae gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ddyletswydd i sicrhau bod strategaeth a fframwaith clir ar waith i wneud penderfyniadau a bod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi cytuno arnynt. Mae Cynghorwyr y Gronfa, staff eraill y Bwrdd Iechyd, Grŵp Cynghori ar y Cronfeydd Elusennol a'r Pwyllgor ei hun yn defnyddio'r strategaeth i werthuso ceisiadau am arian. Gwaith y Pwyllgor yw ystyried a phenderfynu ar ganlyniadau ceisiadau am gyllid gan Awyr Las, a chaiff ceisiadau eu cyflwyno i'r Pwyllgor mewn fformat safonol.

35 Cysylltodd aelodau Cerddwn Ymlaen â Chadeirydd y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2014 i holi ynglŷn â'r posibilrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu £20,000 tuag at her Cylchdaith Cymru.

36 Nid oedd cais Cylchdaith Cymru yn gais nodweddiadol i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol; fel arfer, mae'r ceisiadau a gyflwynir i Ddeiliaid Cronfeydd yn geisiadau am eitemau gwirioneddol megis sganiwr meddygol. Roedd y cais hwn yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at raglen o ddigwyddiadau a oedd yn cael eu cynllunio a'u cynnal gan gorff trydydd parti sydd ar hyn o bryd ddim yn gwmni nac yn elusen gofrestredig. Mae Cerddwn Ymlaen yn disgrifio ei hun fel Ymgyrch Elusennol; mae ganddo ei gyfrif banc a'i sicrwydd yswiriant ei hun.

37 Barnodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, a oedd hefyd yn gadeirydd ar Bwyllgor Rhoi Organau'r Bwrdd Iechyd, fod cais Cerddwn Ymlaen yn deilwng o gefnogaeth. Gwelodd y potensial i'r cyfraniad o £20,000 gael ei rannu'n gyfartal rhwng y brif gronfa elusennol a'r gronfa rhoi organau.

38 Ar ôl cyfarfod ag aelodau Cerddwn Ymlaen a hysbysu'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid Dros Dro, cysylltodd y Cadeirydd ag aelodau eraill y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol i ganfasio eu cymeradwyaeth i'r prosiect. Dywedodd fod y Pwyllgor Rhoi Organau yn cyfrannu £10,000 i'r her. Cytunodd holl aelodau'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (ac eithrio un, nad oedd yn bresennol yn y trafodaethau) i gyfrannu £10,000 pellach i brosiect Cylchdaith Cymru, gan roi cyfanswm o £20,000.

39 Ym mis Tachwedd 2014, cyn i'r cais am £10,000 ychwanegol gael ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, gweithredodd y tîm taliadau gais gan y Cadeirydd Rhoi Organau i wneud trosglwyddiad mewnol o £10,000 o'r Gronfa Rhoi Organau i Gronfa Elen.

40 Ar 1 Rhagfyr 2014, anfonodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol e-bost at y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid Dros Dro a oedd yn datgan y canlynol:

'Yn dilyn ein sgwrs ffôn y bore yma ynglŷn â Chylchdaith Cymru, gallaf gadarnhau fy mod wedi cael cymeradwyaeth i £10,000 gael ei gyflwyno i Gronfa Elen, dan ofal Awyr Las ac ar gael i drefnwyr Cylchdaith Cymru i dalu'r costau sefydlu.'

41 Ymatebodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Dros Dro i'r e-bost gan nodi:

'Cymerwch hyn fel awdurdodiad i fwrw ymlaen a chadarnhau wrth drefnwyr Cylchdaith Cymru dros Roi Organau y bydd y £10,000 yn dod i law oddi wrth Awyr Las. Fel y trafodwyd, mae mwyafrif y pwyllgor wedi cytuno ar hyn yn anffurfiol, ac yn y cyfarfod pwyllgor ar 12 Rhagfyr, byddwn yn cymeradwyo'r taliad hwn yn swyddogol yn ôl-weithredol.'

42 Cyn y cyfarfod o'r pwyllgor ar 12 Rhagfyr 2014, cwblhaodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol y ffurflen gais ar gyfer prosiect Cylchdaith Cymru ei hun ar ran y Pwyllgor Rhoi Organau. Gofynnai'r cais am 'Fenthyciad i Her Cylchdaith Cymru dros Roi Organau' ac yn yr adran ar werthuso risg cofnodwyd y risg 'na ddaw cyllid digonol i law'r prosiect ac na all y prosiect fwrw ymlaen'.

43 Dywedodd yr Is-Gadeirydd wrthym fod Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol wedi dweud wrthi ei fod wedi cysylltu ag elusen Ambiwlans Awyr Cymru ynglŷn â'i chysylltiad blaenorol â Cerddwn Ymlaen at ddibenion diwydrwydd dyledus a'i bod wedi cadarnhau y gellid dibynnu ar y grŵp i gyflawni her Cylchdaith Cymru. Fel y crybwyllwyd yn gynharach, roedd y sefydliad wedi cwblhau nifer o ddigwyddiadau codi arian yn llwyddiannus yn y gorffennol, yn fwyaf nodedig cyfres o deithiau cerdded a gododd oddeutu £400,000 i Ambiwlans Awyr Cymru.

44 Ar 12 Rhagfyr fe wnaeth y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol roi cymeradwyaeth ôl-weithredol i'r cais am fenthyciad a chofnodwyd y canlynol yn y cofnodion:

**CF14/047.2 Benthyciad i Her Cylchdaith Cymru dros Roi Organau**

Cadarnhaodd [y Cadeirydd] y trafodwyd y cais hwn gyda'r Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor gan ei fod yn dod oddi wrth [y Cadeirydd] ar ran y Pwyllgor Rhoi Organau. Mae'r cais yn ceisio benthyciad sy'n ad-daladwy ac mae'r prosiect yn dal i aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru gan nad yw'n cael ei wneud ar ei ben ei hun. Cymeradwywyd y cais hwn.

45 Pan oeddent yn cymeradwyo'r cais, nid oedd aelodau Pwyllgor Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd yn gwybod bod Cylchdaith Cymru wedi cael cyllid gan ddau gorff arall, sef Llywodraeth Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

46 Er bod y cais wedi cael ei gymeradwyo am 'fenthyciad', ni chafodd y dogfennau perthnasol yn cymeradwyo'r benthyciad eu cwblhau na'u cyhoeddi gan Dîm Cyllid y Bwrdd Iechyd. Rhyddhawyd y cyllid o £10,000 i Cerddwn Ymlaen drwy drosglwyddiad mewnol i Gronfa Elen yng nghyfrifon Cronfeydd Elusennol y Bwrdd Iechyd.

47 Mae aelodau Cerddwn Ymlaen wedi dweud wrthym na wnaethent ofyn am fenthyciad gan y Bwrdd Iechyd; cyfraniadau oedd ar yr her eu hangen. Ni fyddai wedi bwrw ymlaen â chefnogaeth y sector cyhoeddus pe byddai'r arian wedi ei roi drwy fenthyciadau. Cysylltodd y tîm astudio â'r cyn Gadeirydd drwy'r Bwrdd Iechyd, i geisio ei safbwynt ar sut digwyddodd i'r cais am fenthyciad droi'n gyfraniad ariannol yn y diwedd. Fodd bynnag, gwrthododd gwrdd â ni i drafod y mater ymhellach. Oddi wrth yr holl unigolion y siaradom â nhw, roedd disgwyliad anffurfiol y byddai her Cylchdaith Cymru yn codi mwy o arian na'r gost o'i chynnal, ac y byddai'r arian hwn yn cael ei adneuo yng Nghronfa Elen ac y gellid ei ddefnyddio yn ddiweddarach.

## Cafodd Cerddwn Ymlaen gyfanswm o £20,000 o gyllid at her 'Cylchdaith Cymru' oddi wrth Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

48 Ar 23 Hydref 2014, cysylltodd aelod o Cerddwn Ymlaen â Chadeirydd y Bwrdd Iechyd (sydd hefyd yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Rhoi Organau) i drafod rhoi cyfraniad ariannol i 'Gylchdaith Cymru'. Cyfarfu'r Cadeirydd â Cerddwn Ymlaen ar 6 Tachwedd 2014.

49 Ystyriodd Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Caerdydd a'r Fro gais 'Cylchdaith Cymru' yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2014. Trafododd y Pwyllgor y cydbwysedd rhwng risg a chyfle, gan nodi y byddai'r digwyddiad a'r arian yn cael eu rheoli gan y tîm codi arian yn y Bwrdd Iechyd, a bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

50 Y gobaith oedd y byddai arian dros ben ar gael ar ôl ystyried y gost o gwblhau her Cylchdaith Cymru. Trafododd y Pwyllgor ddosbarthiad arfaethedig cyfran yr elw o fewn Caerdydd a'r Fro, gan ofyn am eglurhad ynglŷn ag a fyddai elw yn cael ei

ddychwelyd i’r Pwyllgor ynteu i gronfeydd adrannol. Trafodwyd hefyd faint o gyfraniad anariannol a ddisgwyliwyd gan y Bwrdd Iechyd. Roedd yn glir nad oedd dim yn ofynnol, gan fod Awyr Las yn gwneud yr holl waith gweinyddu ac yn trefnu’r digwyddiad. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ganiatáu mynediad i Ysbyty Dewi Sant (yng Nghaerdydd) i lansio’r digwyddiad.

51 Tynnwyd sylw at y ffaith y dylid dathlu achlysur deddfu Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013. Argymhellwyd y dylai’r Bwrdd Iechyd arwain ar y gwaith o gefnogi’r digwyddiad hwn oherwydd ei rôl fel y darparwr trawsblannu ar gyfer Cymru.

52 Ar ôl trafod, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfraniad o £20,000 a dalwyd i Awyr Las.

## Cafodd Cerddwn Ymlaen gyfanswm o £45,000 o gyllid at her ‘Cylchdaith Cymru’ oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng Betsi Cadwaladr

53 Ym mis Chwefror 2015, derbyniodd Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ffolder cyflwyniad oddi wrth ei swyddogion yn gofyn am gymeradwyo grant o £45,000 i Cerddwn Ymlaen i gefnogi digwyddiad Cylchdaith Cymru. Byddai grant Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at:

- ffioedd trefnwyr y cymalau;
- treuliau trefnwyr y cymalau; ac
- arddangosfa symudol i gyd-fynd â Chylchdaith Cymru i ennyn cyhoeddusrwydd i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru).

54 Cymeradwyodd y Gweinidog y grant gan ailadrodd pwysigrwydd cadw’r elfen codi arian yn weledol ar wahân i unrhyw ddeunyddiau brandio neu ymgyrchu Llywodraeth Cymru i helpu i osgoi dryswch. Yn benodol, gan gadw unrhyw weithgaredd codi arian ar wahân i’r arddangosfa o’r ddeddfwriaeth.

# Cwblhawyd her Cylchdaith Cymru yn llwyddiannus ym mis Gorffennaf 2015, er bod rhyw gymaint o waith codi arian wedi parhau wedi hynny er mwyn talu am gyfanswm y gost o gynnal y digwyddiad, sef £154,054

55 Nodau’r her, fel y’u nodir yn adroddiad cryno ‘Cylchdaith Cymru’ a gyhoeddwyd ym mis Mai 2016, oedd:


- hyrwyddo’r angen i siarad am roi organau gydag anwyliaid a chynyddu ymwybyddiaeth o’r ddeddfwriaeth newydd ar roi organau a gyflwynwyd yng Nghymru ar 1 Rhagfyr 2015;

- creu prosiect cenedlaethol niwtral ac annibynnol gyda chefnogaeth a chydweithrediad cynrychiolwyr y GIG sy'n gweithio ym maes rhoi organau; er mwyn helpu i sicrhau bod cyflwyno system o ganiatâd tybiedig i roi organau a meinweoedd yng Nghymru yn llwyddiant;
- sefydlu Cronfa Elen fel elusen sy'n gyfystyr â rhoi organau yng Nghymru; a
- defnyddio adnoddau sy'n bodoli eisoes a llunio offer addysgol newydd, adeiladu ar y rhwydweithiau rhanddeiliaid sy'n bodoli eisoes a chynnwys gwirfoddolwyr lle bynnag y bo'n bosibl i greu digwyddiad uchel ei broffil.

56 Bob dydd o'r her wythnos o hyd ar draws Cymru cyfarfu'r cyfranogwyr â theuluoedd yr oedd rhoi organau yn effeithio arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys plant ysgol, grwpiau cymunedol a staff gofal iechyd. Ar sawl pwynt yn ystod yr wythnos, fe wnaeth derbynwyr organau a theuluoedd anwyliaid a oedd wedi rhoi eu horganau ymuno â'r tîm i ddangos eu cefnogaeth.

57 Dangosai'r ystadegau a gasglwyd gan Cerddwn Ymlaen fod yr amrywiol sianeli cyfathrebu wedi denu tua 285,000 o edrychiadau: gyda dros bedwar o bob pump o ganlyniad i hysbysebu. Roedd yr 16% sy'n weddill wedi'u rhannu rhwng y categorïau a welir yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Y gwahanol ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd i ennyn ymwybyddiaeth o'r her




Ffynhonnell: Adroddiad cryno Cylchdaith Cymru

58 Mae Cerddwn Ymlaen yn falch bod proffil rhoi organau wedi cael ei godi o ganlyniad i'r miloedd o sgyrsiau a gafwyd yn ystod y cyfnod cyn dechrau'r her ac yn ystod yr her ei hun, yn ogystal â'r digwyddiadau dilynol a'r sylw a gafodd 'Cylchdaith Cymru'. Fodd bynnag, ni fu elfen codi arian yr her mor llwyddiannus ag yr oedd Cerddwn Ymlaen wedi'i ddisgwyl yn wreiddiol. O ganlyniad, ac i sicrhau nad oedd y prosiect yn dangos diffyg, cynhaliodd Cerddwn Ymlaen weithgareddau codi arian ychwanegol i dalu'r gost o gwblhau'r her, sef £154,054. Cynaliasant

ddigwyddiadau lleol ychwanegol nad oeddent wedi'u trefnu'n wreiddiol yn ystod diwedd haf a hydref 2015 er mwyn rhoi sylw i'r prinder hwn.

## Fe wnaeth y gwerthusiad a wnaeth swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ôl cwblhau her Cylchdaith Cymru amlygu rhai diffygion yn y cyllid a'r cyfrifon

59 Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, ar ôl cwblhau her Cylchdaith Cymru, ar 21 Medi 2015. Erbyn y dyddiad hwn, ni wnaed unrhyw werthusiad ffurfiol o'r digwyddiad er bod Rheolwr Codi Arian Awyr Las wedi gweithio'n agos iawn â'r her. Mynychodd cynrychiolwyr Cerddwn Ymlaen y cyfarfod i ddarparu diweddariad ar lafar ar her Cylchdaith Cymru ac i ateb unrhyw gwestiynau.

60 Yn ystod y cyfarfod, cadarnhaodd cynrychiolwyr Cerddwn Ymlaen mai siomedig fu'r gweithgaredd codi arian yn ystod y digwyddiad yn enwedig o'i gymharu â gweithgareddau blaenorol y sefydliad. Gofynnodd un aelod o'r pwyllgor a oedd gan Gronfa Elen darged codi arian mewn golwg. Eglurodd Cerddwn Ymlaen mai'r nod oedd codi cymaint â phosibl, fodd bynnag, nid oedd yn glir sut byddai'r arian a godwyd yn cael ei wario.

61 Yng nghyfarfod mis Medi, gofynnwyd cwestiynau hefyd am ad-dalu'r benthyciad o £10,000. Cadarnhaodd y Rheolwr Codi Arian nad oedd y benthyciad wedi ei ad-dalu gan nad oedd y digwyddiad wedi codi cymaint o arian ag a ragwelwyd.

62 Roedd diffyg eglurder ynglŷn â'r trefniadau cyfrifyddu oedd ar waith, yn benodol a oedd yr holl arian a wariwyd wedi mynd drwy lyfrau'r elusen Awyr Las hy drwy Gronfa Elen. Eglurodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid y byddai angen i unrhyw wariant o Gronfa Elen, o fis Medi 2015 ymlaen, fynd drwy gais i'r Pwyllgor gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â phrosesau'r Bwrdd Iechyd.

63 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid hefyd fod gan Awyr Las falans negyddol o ran y rhoddion a roddwyd i Gronfa Elen am gynnal Cylchdaith Cymru, a mynegodd bryder ynglŷn â'r effaith bosibl ar yr archwiliad o gyfrifon Awyr Las. Cadarnhaodd Cerddwn Ymlaen fod y llyfrau ar gyfer Cronfa Elen yn anghyflawn a bod y gronfa mewn diffyg.

64 Dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn glir y byddai angen i'r Pwyllgor weld darlun ariannol cyflawn o her Cylchdaith Cymru. Felly gofynnodd y Cadeirydd i Cerddwn Ymlaen gysylltu â'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid Dros Dro i sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2015 a bod adroddiad diweddaru yn cael ei ddarparu. Fodd bynnag, ni ddarparodd Cerddwn Ymlaen y wybodaeth ofynnol a hysbyswyd y Pwyllgor o hynny yn ei gyfarfod nesaf ar 21 Rhagfyr 2015.

65 Pwysodd y Pwyllgor am gyfrifon Cronfa Elen er mwyn canfod yr union sefyllfa, er y bu hyn yn anodd yn ymarferol. Yn dilyn gohebu pellach ym mis Chwefror a Mawrth 2016 rhwng swyddogion y Bwrdd Iechyd a Cerddwn Ymlaen, cyflwynwyd cyfrifon cyfunol Cerddwn Ymlaen a Chronfa Elen i'r Pwyllgor o'r diwedd yn ei gyfarfod ym mis Mai 2016. Roedd hyn tua chwe mis ar ôl y dyddiad cau gwreiddiol ym mis Tachwedd, gweler Atodiad 3. Adrodda'r cyfrifon terfynol fod gwarged bychan o £1,368 wedi'i gynhyrchu o gwblhau her Cylchdaith Cymru yn llwyddiannus.

66 Mae cynrychiolwyr Cerddwn Ymlaen wedi egluro wrthym fod eu cyfrifydd, hefyd yn aelod o Cerddwn Ymlaen, wedi cytuno i ddarparu set o gyfrifon blynyddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 am ddim fel cyfraniad ymarferol i'r her. Byddai'r cyfrifon blynyddol hyn wedi cynnwys yr incwm a'r gwariant ar gyfer yr her o fewn ei hincwm a'i gwariant am y flwyddyn. Fodd bynnag, yr hyn yr oedd ar y Bwrdd Iechyd eisiau oedd set o gyfrifon ar gyfer 'Cylchdaith Cymru' yn unig. Byddai hyn wedi bod yn nhrydydd chwarter y flwyddyn ariannol ac roedd felly'n her o safbwynt capasiti'r cyfrifydd a'r gost ddilynol bosibl, oherwydd y byddai dwy set o gyfrifon wedi bod yn ofynnol.

67 Gan na ddaeth cyfrifon interim Cerddwn Ymlaen i law ar amser, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid i Bennaeth Gwasanaethau Ariannol newydd y Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad mewnol o drefniadau llywodraethu 'Cylchdaith Cymru'. Ers hynny cafodd papur ei gynhyrchu i'w ystyried gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, yn nodi'r gwersi a ddysgwyd ac yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau pwysig mewn polisïau a threfniadau gweithredu. Caiff y newidiadau hyn eu hystyried yn adran nesaf yr adroddiad hwn, yng nghyd-destun ehangach ein profiad o archwilio trefniadau cydweithredol eraill rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat a'r sector gwirfoddol.

## Mae her Cylchdaith Cymru yn ailddatgan llawer o'r heriau pwysig y mae cyrff sector cyhoeddus yn eu hwynebu wrth gyflenwi gwasanaethau a phrosiectau'n gydweithredol gyda'r sector preifat a'r sector gwirfoddol

68 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi'n flaenorol nifer o adroddiadau ar gyflenwi prosiectau a gwasanaethau cydweithredol ac wedi gweld nifer o themâu sydd wedi cyfyngu ar lwyddiant y priod fentrau. Dyma rai ohonynt:

- prosesau goruchwylio a monitro aneffeithiol;
- diffyg tryloywder; ac
- achosion o wrthdaro buddiannau ddim yn cael eu trafod yn effeithiol.

69 Yn aml, mae'r gwendidau hyn yn y trefniadau llywodraethu wedi digwydd o fewn cyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus 'yn anuniongyrchol ac ar hyd braich oddi wrth eu cleient neu'u rhiant-gorff. Roedd llawer yn gysylltiedig â phrosesau

caffael neu waredu diffygiol neu'n brosiectau a ariannwyd gan grantiau ac a oedd wedi methu. Mae'r effeithiau wedi cynnwys gwasanaethau o ansawdd gwael, colli arian cyhoeddus, niwed i enw da ac erydu ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y rheini sy'n gyfrifol. Mae'r achosion sylfaenol yn cynnwys:

- Dim digon o ystyriaeth i drefniadau ar gyfer goruchwylio ac i'r cydbwysedd priodol rhwng annibyniaeth ac ymyrraeth;
- Diffyg eglurder ynglŷn â sut dylai'r trefniadau llywodraethu weithredu'n ymarferol, gan gyfrannu at lai o dryloywder a llai o atebolrwydd cyhoeddus; a
- Diffyg dealltwriaeth gyfrannol a chyson ac ymrwymiad i safonau moeseg ac ymddygiad sydd i'w dilyn gan bawb sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

70 Mae llawer o'r materion a welodd y Bwrdd Iechyd yn yr achos hwn yn debyg i'r rhai a welodd yr Archwilydd Cyffredinol yn flaenorol, ac amlygant angen i gyrff cyhoeddus fyfyrio'n ofalus a sicrhau nad yw'r materion hyn yn dal i ddigwydd.

## Nid oedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen gytundeb ffurfiol ar gyfer eu priod rolau a'u cyfrifoldebau

71 Ym mis Tachwedd 2014, gwnaed trosglwyddiad mewnol o £10,000 o'r Gronfa Rhoi Organau i Gronfa Elen ac ar 31 Ionawr 2015 trosglwyddwyd cyfraniad o £10,000 ar draws i Gronfa Elen o brif gronfa elusennol y Bwrdd Iechyd. Ni chytunwyd gyda Cerddwn Ymlaen ar delerau ac amodau nac ar femorandwm dealltwriaeth cyn i'r arian gael ei drosglwyddo. Nodai'r cais y byddai'r cyfraniad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer costau cychwynnol y prosiect.

72 Ym mis Rhagfyr 2015, ar ôl y cais i'r holl wariant gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, daeth y diffyg telerau ac amodau yn asgwrn cynnen pan ddaeth anfoneb i law oddi wrth BSkyB. Roedd yr anfoneb yn ymwneud â chyfres o hysbysebion a gafodd eu rhedeg ar S4C i hyrwyddo cyngerdd agoriadol Cylchdaith Cymru ym Mhafiliwn y Rhyl. Nid oedd y gyngerdd yn rhan o'r cais gwreiddiol i Awyr Las, ac ni chafodd Cronfa Elen ddim o'r incwm o'i chynnal. Gwrthododd y Bwrdd Iechyd â thalu'r anfoneb nes cael eglurhad pellach.

73 Wrth gwblhau 'Cylchdaith Cymru', roedd aelodau'r tîm a'r staff cymorth yn cario gyda nhw bwcedi codi arian. Roedd logo Cronfa Elen ar y bwcedi hyn. Fodd bynnag, wrth gyfweld Cadeirydd presennol y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, roedd yn amlwg inni nad oedd digon o eglurder ynglŷn ag a fyddai'r arian a godwyd yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r digwyddiad ynteu a fyddai'n cael ei roi i Gronfa Elen i'w ddefnyddio at ddibenion i'r dyfodol sy'n gysylltiedig â rhoi organau. Mae pob parti wedi cydnabod amwysedd y gweithgaredd codi arian ers i Gylchdaith Cymru gael ei chwblhau.

## Cymeradwyodd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gyfraniad ‘Cylchdaith Cymru’ ar sail asesiad cyfyngedig o risg

74 Mae rhyw gymaint o risg ynghlwm wrth bob prosiect ac mae risgiau penodol ynghlwm wrth fentrau cydweithredol. Mae angen nodi’r risgiau hyn, eu gwerthuso a’u lliniaru i lefel dderbyniol. Mae angen i’r cyfryw ystyriaethau ffurfio rhan o’r dogfennau sy’n gysylltiedig â chymeradwyo neu wrthod y prosiect.

75 Gofynnai’r cais i’r pwyllgor Cronfeydd Elusennol am ‘Fenthyciad i Her Cylchdaith Cymru dros Roi Organau’ ac yn yr adran ar werthuso risg, cofnodwyd un risg: ‘na ddaw cyllid digonol i law’r prosiect ac na all y prosiect fwrw ymlaen.’

76 Nid oedd tystiolaeth bod ystyriaeth wedi’i rhoi i’r meysydd risg canlynol:

- Risgiau ariannol
- Llywodraethu gwybodaeth
- Risgiau Iechyd a Diogelwch
- Risgiau i enw da

77 Risg ariannol oedd un o brif risgiau’r prosiect hwn, o ystyried bod Cerddwn Ymlaen yn rhagweld lefel llawer uwch o roddion cyhoeddus na’r hyn a gafwyd yn ystod her Cylchdaith Cymru. Fe wnaeth y ddau Fwrdd Iechyd oedd yn darparu cymorth ariannol dderbyn y disgwyliad hwn yn ddi-gwestiwn.

78 Hefyd, fel y soniwyd yn gynharach, roedd dwy system gyfrifyddu wahanol ar waith; roedd Cerddwn Ymlaen yn cadw cofnodion o incwm a gwariant ac ni welodd staff Cyllid y Bwrdd Iechyd y rhain. Felly, nid oedd yn bosibl i’r staff cyllid yn y Bwrdd Iechyd wybod a oedd yr incwm a’r gwariant yng Nghronfa Elen yn gyflawn. Ychwanegwyd ymhellach at risg sefyllfa ariannol anghyflawn oherwydd y diffyg cytundeb ffurfiol rhwng y Bwrdd Iechyd a Cerddwn Ymlaen. Cyflwynai i’r Bwrdd Iechyd risg sylweddol wrth lunio cyfrifon Awyr Las i’w harchwilio.

79 Roedd risgiau ynghlwm wrth yr heriau corfforol amrywiol a wnaed yn ystod Cylchdaith Cymru naill ai i’r cyfranogwyr neu’r gwylwyr. Er bod Cerddwn Ymlaen wedi dweud wrthym fod ganddynt eu hyswiriant eu hunain nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod naill ai aelodau Awyr Las na’r Bwrdd Iechyd wedi gwneud archwiliadau priodol i gadarnhau hynny cyn iddynt gytuno i gefnogi’r digwyddiad.

## Her gyfyngedig a roddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth gymeradwyo ‘Cylchdaith Cymru’

80 Cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol gymeradwyaeth anffurfiol holl aelodau’r Pwyllgor (ac eithrio un), cyn i’r Pwyllgor wneud y penderfyniad i gymeradwyo’r cyfraniad o £20,000. Hefyd, cwblhaodd y Cadeirydd y cais am gyllid yn bersonol; ni chyflwynodd Cerddwn Ymlaen unrhyw gais ffurfiol. O’r herwydd, prin iawn oedd yr herio a’r craffu manwl ar y cynnig yn y cyfarfod ym mis Rhagfyr 2014.

81 Y penderfyniad ffurfiol a wnaeth y Pwyllgor yn ôl-weithredol yn y cyfarfod hwnnw oedd cymeradwyo’r cais am fenthyciad i Cerddwn Ymlaen. Nid oedd Cerddwn Ymlaen wedi gwneud cais o’r fath ac, fel y digwyddodd hi, ni wnaeth yr Adran Gyllid lunio na chyhoeddi papurau ar gyfer cytundeb benthyciad.

82 Goruchwyliodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cyllid dros dro’r camau hyn ond ni chawsant eu cywiro na’u herio ar y pryd.

## Ni lynwyd wrth reolau caffael Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wrth benodi cyflenwyr

83 Mae gan y Bwrdd Iechyd reoliadau ariannol ar gyfer ei holl bryniannau. Fodd bynnag, o adolygu’r dogfennau sy’n ymwneud â ‘Chylchdaith Cymru’ nid yw’n glir a yw’r pryniannau a wnaed gydag arian elusen Awyr Las yn syrthio o fewn cwmpas y rheoliadau hyn.

84 Mae rheoliadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn datgan, ar gyfer pob pryniant dros £25,000 a hyd at lefel Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd[3], fod yn rhaid i’r Bwrdd Iechyd gael pedwar tendr. Comisiynodd Cerddwn Ymlaen gwmni o’r enw Storm and Shelter i ddarparu gwefan, y gwaith ffilmio a chyngor proffesiynol, am £32,000, heb gynnal ymarferiad tendro.

85 Mae aelod o Cerddwn Ymlaen yn Rheolwr Gyfarwyddwr ac mae ei fab yn Gyfarwyddwr ar Storm and Shelter. Fe wnaeth y penderfyniad i benodi’r cwmni ennyn sylw gan y cyfryngau; daeth nifer o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i law ynglŷn â’r mater hwn ymhlith materion eraill. Er ein bod yn deall bod y Pennaeth Codi Arian ar gyfer Awyr Las yn ymwybodol o’r berthynas, fe wnaeth y sefyllfa achosi peth tensiynau yn y berthynas rhwng y Bwrdd Iechyd a Cerddwn Ymlaen yn ddiweddarach pan ddangosodd y cyfryngau ddiddordeb yn y mater.

86 Pan gawsant eu cyfweld, eglurodd Cerddwn Ymlaen y gofynnwyd i Storm a Shelter ddarparu’r gwasanaeth gan ei fod eisoes yn cynnal gwefan bresennol y sefydliad, a bod angen i ddeunydd cyhoeddusrwydd Cylchdaith Cymru fod ar gael cyn gynted â phosibl. Roedd ganddynt berthynas wedi’i sefydlu gyda’r cwmni. Nid oedd Cerddwn Ymlaen credu y gallai gael gwasanaeth tebyg yn rhywle arall am gost gymharol, ar gymaint o fyr rybudd.

87 Mae hyn yn tynnu sylw at y gwahaniaethau diwylliannol sy’n gallu bodoli rhwng partneriaid y sector preifat a’r sector cyhoeddus. Caiff safonau moesegol, neu safonau Nolan, eu cydnabod a’u gwerthfawrogi’n eang yn y sector cyhoeddus, ond yn y sector preifat mae buddiannau masnachol a’r angen am benderfyniadau gweithredol cyflym yn aml yn ennill y dydd. Heb gytundebau ysgrifenedig ymlaen llaw yn nodi’r gofynion moesegol, mae mwy o risg y bydd achosion fel hyn yn codi.

[3] £106,047 yw’r lefel contractau o safbwynt cyflenwi, gwasanaethau a dylunio

# Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen wedi dysgu nifer o wersi pwysig oddi wrth her Cylchdaith Cymru a gwnaed newidiadau pwysig yn eu trefniadau llywodraethu

88 Roedd ‘Cylchdaith Cymru’ yn brosiect cymhleth ac anghyffredin o safbwynt Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ystyried yr holl bartneriaid a natur yr her.

89 Mae Adroddiad Blynyddol Cylchdaith Cymru yn rhoi sylwebaeth ar lwyddiant yr her. Er hynny, mae’n glir o adolygu dogfennau ‘Cylchdaith Cymru’ bod angen gwneud gwelliannau i unrhyw brosiectau cydweithredol o’r natur hon a gynhelir i’r dyfodol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen wedi rhoi ystyriaeth ofalus i hyn, ac mae Atodiad 4 yn rhoi manylion y gwersi a ddysgwyd a’r newidiadau a wnaethant.

# Atodiad 1

## Ein cwmpas a'n dulliau archwilio

### Cwmpas

Cynhaliwyd adolygiad archwilio o'r cyfraniad ariannol a ddarparwyd drwy arian cyhoeddus ac elusennol i 'Gylchdaith Cymru'. Fe wnaethom hefyd adolygu'r trefniadau llywodraethu, monitro a goruchwylio a oedd ar waith yn Llywodraeth Cymru ac yn y byrddau iechyd dan sylw.

Bwriad ein harchwiliad oedd canfod y ffeithiau sylfaenol mewn perthynas â'r pryderon a godwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (un o'r byrddau iechyd dan sylw). Nid ydym wedi ceisio dod i gasgliadau gwerthusol o'n gwaith na gwneud argymhellion penodol. Mae'r adroddiad yn datgan ffeithiau'r mater i'w hystyried gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus sy'n cydweithio â'r trydydd sector.

### Dulliau

Fel rhan o'r adolygiad, fe wnaethom gasglu tystiolaeth ddogfennol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Llywodraeth Cymru a Cerddwn Ymlaen.

Yn benodol, fe wnaethom archwilio dogfennau a ddelir gan Is-adran Cyllid y GIG Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Cronfeydd Elusennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.


Fe wnaethom gyfweld swyddogion perthnasol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac o Lywodraeth Cymru.

Cyn cyhoeddi ein hadroddiad, fe wnaethom gytuno ar ei gywirdeb ffeithiol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Llywodraeth Cymru, a'r trydydd partïon a enwir.

# Atodiad 2

## Arianwyr, Cerddwn Ymlaen a Her ‘Cylchdaith Cymru’

Arddangosyn 4: Arianwyr, Cerddwn Ymlaen a Her ‘Cylchdaith Cymru’



# Atodiad 3

## Cyfrifon cyfunol Cronfa Elen a Cerddwn Ymlaen

Arddangosyn 5: Cyfrifon cyfunol Cronfa Elen a Cerddwn Ymlaen

CRONFA ELEN AND CERDDWN YMLAEN FUNDS

**Page 1**

Consolidated Income and Expenditure Statement

**For the period 1st October 2014 to 31st March 2016.**

**(Incorporating the Lap of Wales Challenge)**

| | £ | £ |
|---|---|---|
| **INCOME** | | |
| Sponsorship | | 20,000 |
| Welsh Assembly Government | | 45,000 |
| Betsi Cadwaladr University Health Board | | 20,000 |
| Cardiff & Vale University Health Board | | 20,000 |
| Fundraising events | | 6,302 |
| Collections and donations | | 20,273 |
| CD / Water and other sales | | 8,157 |
| Opening night ( Lap of Wales) | | 11,481 |
| Auction proceeds | | 4,045 |
| Interest | | 155 |
| | | 155,414 |
| **EXPENDITURE** | | |
| Event costs | 32,632 | |
| Lodging & catering | 21,139 | |
| Travel & transport | 10,009 | |
| Activities | 32,518 | |
| Publications and CD's | 2,703 | |
| Clothing | 3,775 | |
| Publicity, web site maintenance & filming | 46,044 | |
| Advertising | 3,600 | |
| Insurance | 890 | |
| Bank charges | 4 | |
| Admin & sundry costs | 730 | |
| | | -154,045 |
| **Income in excess of expenditure** | | 1,368 |

CRONFA ELEN AND CERDDWN YMLAEN FUNDS



## Consolidated Balance Sheet

**At 31st March 2016.**

**(Incorporating the Lap of Wales Challenge)**

| | £ |
|---|---|
| **Current assets** | |
| Debtors | 2,477 |
| Cash at bank | 5,390 |
| | 7,867 |
| **Current liabilities** | |
| Creditors | -6,498 |
| Net liabilities | 1,368 |
| **Funded by:** | |
| **Income in excess of expenditure** | 1,368 |

**Approved on the 31st May 2016 by**

**Mr RM Jones**

**Mr E Vaughan**

# Atodiad 4

## Gwersi y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi'u dysgu

Arddangosyn 6: Crynodeb o'r gwersi allweddol y mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Cerddwn Ymlaen wedi'u dysgu

<table>
<tr><th colspan="2">Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr</th></tr>
<tr><td colspan="2">Mae cynllun dirprwyo newydd wedi'i roi ar waith ar gyfer cymeradwyo ceisiadau am gyllid oddi wrth Elusen Awyr Las.</td></tr>
<tr><th>Swm y gwariant</th><th>Cymeradwyaeth yn ofynnol</th></tr>
<tr><td>Hyd at £5,000</td><td><ul><li>Cyfarwyddwr Cyllid – Cyllid Gweithredol (wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol).</li></ul></td></tr>
<tr><td>£5,001 i £25,000</td><td><ul><li>Cyfarwyddwr Cyllid – Cyllid Gweithredol (wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol); ynghyd â'r</li><li>Uwch Reolwr perthnasol (gweler isod); ynghyd â'r</li><li>Prif Swyddog Ariannol perthnasol; ynghyd â'r</li><li>Grŵp Cynghori ar Gronfeydd Elusennol; a</li><li>Chyflwyno adroddiad yn ôl-weithredol i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Dros £25,000</td><td><ul><li>Cyfarwyddwr Cyllid – Cyllid Gweithredol (wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Ariannol); ynghyd â'r</li><li>Uwch Reolwr perthnasol (gweler isod); ynghyd â'r</li><li>Prif Swyddog Ariannol perthnasol; ynghyd â'r</li><li>Grŵp Cynghori ar Gronfeydd Elusennol am sylwadau; a'r</li><li>Pwyllgor Cronfeydd Elusennol</li></ul></td></tr>
<tr><td colspan="2">Dogfennau ar gyfer Cydweithredu<br>Mae'n bwysig o'r cychwyn cyntaf y ceir eglurder rhwng y partneriaid a bod archwiliadau diwydrwydd dyladwy priodol yn cael eu cyflawni i sicrhau nad yw'r Elusen yn cael ei pheryglu. Os ceir cysondeb, bydd y broses yn symlach, er ei bod yn hanfodol bod y gwahaniaethau posibl yn cael eu hamlygu a'u trafod. Bydd angen rhoi ystyriaeth yn benodol i wahaniaethau diwylliannol ac arddulliau gweithio.<br>Dylid gweithio mewn ffordd strwythuredig i asesu a ffurfioli trefniadau cydweithio posibl gan gynnwys y meysydd canlynol:<ul><li>Datgan amcanion y cydweithrediad</li><li>Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau gan gynnwys gwneud penderfyniadau</li><li>Adroddiadau</li><li>Cyfrifoldebau ariannol</li><li>Cyfathrebu rhwng partneriaid</li><li>Cysylltiadau cyhoeddus</li><li>Rheoli Risg</li><li>Strategaeth werthuso ac ymadael</li><li>Cytundeb</li></ul></td></tr>
</table>

# Gwersi y mae Cerddwn Ymlaen wedi'u dysgu

Mae myfyrion Cerddwn Ymlaen ar her Cylchdaith Cymru wedi'u crynhoi isod:

- Oherwydd y pwyslais allweddol ar godi proffil rhoi organau a hyrwyddo'r sgwrs genedlaethol rhwng teuluoedd, roedd y fenter codi arian yn aml yn ystyriaeth eilradd. O'r herwydd bu angen cynnal gweithgareddau codi arian pellach ar ôl y digwyddiad er mwyn talu'r holl dreuliau.
- Dylid bod yn ofalus wrth gymharu perfformiad codi arian Cylchdaith Cymru gyda digwyddiadau blaenorol Cerddwn Ymlaen gan mai elusen gymharol newydd ydy Cronfa Elen. Roedd Ambiwlans Awyr Cymru yn elusen sefydledig iawn a oedd yn cael cyhoeddusrwydd da ar draws y wlad, a dyna wnaeth arwain at lawer iawn mwy o roddion mewn digwyddiadau blaenorol. Ceisiodd Cylchdaith Cymru sefydlu Cronfa Elen fel elusen ac wrth wneud hynny mae wedi rhoi'r elusen mewn sefyllfa addawol ar gyfer y dyfodol.
- Yn nigwyddiadau blaenorol Cerddwn Ymlaen, roedd y cymalau cyhoeddus (pan allai'r cyhoedd gymryd rhan mewn darnau o'r her) yn ddull effeithiol o godi arian a chasglu cefnogaeth ar gyfer y digwyddiad. Oherwydd natur logistaidd gymhleth Cylchdaith Cymru ni cheid cynifer o gyfleoedd i'r cyhoedd gyfranogi, ac fe allai hynny fod wedi bod yn un o'r ffactorau pam y gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn rhoddion.
- Gallai natur yr enwogion Cymraeg fod wedi dieithrio cynulleidfaoedd di-Gymraeg. Gallai ystod ehangach o enwogion a oedd yn hysbys i bobl ddi-Gymraeg fod wedi gwneud gwahaniaeth mawr wrth geisio cynnwys y gymuned ehangach.
- Y tu allan i brif nod Cronfa Elen, sef codi ymwybyddiaeth o'r angen i deuluoedd drafod rhoi organau, roedd amcanion y gronfa elusennol yn eang heb ffocws clir ar anghenion penodol. Rhaid i ymgyrchoedd i'r dyfodol fod ag amcanion sydd wedi'u diffinio'n gliriach, megis codi arian ar gyfer uned glinigol neu angen clinigol penodol.
- Yng ngoleuni'r egin-dueddiadau yn y cyfryngau cymdeithasol, er mwyn annog mwy o bobl i wylio cynnwys fideo, dylai fideos gael eu llwytho i fyny yn gynhenid i Facebook hytrach na chael eu llwytho i fyny i YouTube a'u rhannu. Gwnaed hyn yn ddiweddarach gyda chynnwys Cronfa Elen, a chafodd y fideos hynny lawer mwy o sylw.
- I'r dyfodol, eu dewis fyddai mwy o ymreolaeth, gan ddefnyddio eu cyfrif banc eu hunain a'u trefniadau eu hunain ar gyfer cynnal digwyddiad a gyda chyfraniadau o'r sector cyhoeddus sy'n cael eu hadneuo yn eu cyfrif banc, gyda chytundeb ysgrifenedig ar y cyflawniadau a'r gofynion llywodraethu perthnasol. Rhoddodd trefniant hybrid Cylchdaith Cymru iddynt broblemau llif arian a bu'n rhaid i'r aelodau roi sylw i'r rhain gyda'u harian personol.
- Mae Cerddwn Ymlaen yn awr yn bwriadu sefydlu ei hun fel elusen gofrestredig gyda Bwrdd Ymddiriedolwyr. Mae'n cydnabod yr angen i gytundebau ysgrifenedig ffurfiol fod ar waith wrth ymdrin ag arian cyhoeddus a bydd hyn yn rhan o'r arferion safonol i'r dyfodol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru